**Rhif: 6**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C21/1151/44/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **15/06/2022** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Porthmadog** |
| **Ward:** | **Porthmadog** |
| **Bwriad:** | **Uwchraddio cyfleusterau yn cynnwys gosod 10 uned deithiol a 6 pod glampio yn lle 25 pabell a awdurdodwyd gan Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon C12/1554/44/TC** |
| **Lleoliad:** | **Tyddyn Adi Camping Site, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YW** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais llawn yw hwn ar gyfer uwchraddio cyfleusterau yn cynnwys gosod 10 uned deithiol a 6 pod glampio symudol yn lle 25 pabell a awdurdodwyd gan Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon C12/1554/44/TC yn safle Tyddyn Adi, Morfa Bychan. Byddai'r gwaith hefyd yn cynnwys tirlunio rhwng y lleiniau carafanau a thirlunio i amgáu safle'r podiau.

1.2 Mae'r safle wedi hir sefydlu fel maes gwersylla a charafanau teithiol ers blynyddoedd, gyda chaniatâd a thystysgrif cyfreithloni ar dri cae eang. Mae'r cae sy'n destun y cais gyda thystysgrif cyfreithlon i leoli hyd at 75 o bebyll arno o dan gyfeirnod C12/1554/44/TC. Mae'r bwriad yn gofyn am gyfnewid 25 o'r pebyll hynny am unedau teithiol a phodiau (16). Mae'r safle yn agored i ymwelwyr o 1af Mawrth i 31 Hydref ac nid oes bwriad i newid hyn. Mae'r un dystysgrif cyfreithlon yn cynnwys awdurdodi defnydd o'r cae i'r dwyrain ar gyfer 150 o bebyll.

1.3 Mae'r safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad ar gyrion pentref Morfa Bychan. Fe wasanaethir y safle gan fynedfa bresennol oddi ar ffordd sirol dosbarth 3, gyda'r rhan helaeth o'r trac mynediad i'r safle yn lwybr cyhoeddus Rhif 40 Porthmadog. Fe amgylchynir y safle gan gaeau, gyda rhan yn ffinio gyda Chwrs Golff a ceir tir uwch i'r gogledd a'r gogledd orllewin. Gorweddai'r safle o fewn dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig Porthmadog a Bae Tremadog. Rhed afon fechan gyda therfyn deheuol y cae gyda rhan fechan o'r cae a glan yr afon yn cael ei adnabod yn barth llifogydd C2. Mae'r cae i'r dwyrain o safle'r cais wedi ei ddynodi yn Safle Bywyd Gwyllt Lleol Glan Morfa Bach.

1.4 Cyflwynir y cais i Bwyllgor Cynllunio gan ei fod yn ddatblygiad ar safle sydd yn fwy na 0.5 hectar o dir. Cyflwynwyd Datganiad Cynllunio, Datganiad Iaith Gymraeg ac Adroddiad Ecolegol ar y cais.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PS 6: Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PS 14: Yr Economi Ymwelwyr

TWR 3: Safleoedd carafanau sefydlog a siale a llety gwersylla amgen parhaol

TWR 5: Safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro

PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol

AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig

AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

AMG 6: Gwarchod safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol

Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid (2021)

Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (2019)

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021)

Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a chadwraeth natur

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 13: Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 18: Trafnidiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C13/0943/44/TC Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnyddio'r tir i leoli 16 carafán teithiol tymhorol (yn ardal 3) a 21 carafán teithiol (yn ardal 2) rhwng 1af Mawrth a 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn benodol: Caniatáu Tystysgrif 9 Ionawr 2015

C12/1554/44/TC Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnyddio'r tir i leoli hyd at 75 o bebyll (yn ardal 4) a 150 o bebyll (yn ardal 5) rhwng 1af Mawrth a 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn benodol: Caniatáu Tystysgrif 9 Ionawr 20015

C02/0515/44/LL Defnydd tymhorol o gaeau rhif 3586, 2776, 1482 as 0075 fel Maes Pebyll: Gwrthod 13 Mawrth 2009

C01D/0452/44/TC Defnydd tymhorol o gaeau 3586, 2776, 1482 as 0075 fel Maes Pebyll: Gwrthod 13 Mawrth 2009

C01D/0168/44/LL Lleoli 40 Uned Deithiol ar safle gwersyll a charafanau teithiol presennol: Gwrthodwyd 6 Rhagfyr 2001

2/24/124T Lleoli 20 carafán deithiol ar ran o faes gwersylla: Caniatáu 28 Mawrth 1996

2/24/U.124 N Tystysgrif defnydd cyfreithlon am faes pebyll tymhorol: Caniatáu 9 Rhagfyr 1986

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref:

**Penderfynwyd :- Gwrthwynebu'r cais oherwydd y rhesymau canlynol :-**

- Am fod 6 pod glampio yn nodwedd parhaol yn hytrach na'r 25 pabell tymhorol
- Am iddo fod yn ddatblygiad parhaol ac nid tymhorol / dros dro
- Am iddo fod yn newid defnydd y safle
- Am fod prinder llefydd i wersylla mewn pabell dylid cadw'r ddarpariaeth fel ag y mae
- Am fod gwersyllwyr pebyll yn defnyddio'r safle yn dymhorol ac yn gadael y safle ar ddiwedd y tymor gwyliau

Uned Drafnidiaeth:

Heb eu derbyn.

Uned Bioamrywiaeth:

<u>Sylwadau 12 Gorffennaf 2021</u>

Data'r safle

• Gyferbyn â Safle Bywyd Gwyllt Glan Morfa Bach (Gorllewin) 1119 a Bron-y-foel 121, y ddau wedi'u dewis am eu cynefinoedd: glaswelltir, gwlypdir, rhostir.

• Llysiau'r Dial 165 metr i ffwrdd.

• O fewn yr ardal chwilio 1km, mae nifer o gofnodion o ymlusgiaid, gan gynnwys y wiber; (*Vipera berus*), neidr y glaswellt; (*Natrix natrix*), madfall y twyni; (*Lacerta agilis*), neidr y defaid; (*Anguis fragil*is) a'r madfall cyffredin; (*Zootoca vivipara*).

• Mae'r cofnodion perthnasol eraill yn ymwneud â rhywogaethau ystlumod yn yr ardal gyda'r ystlum pedol leiaf; (*Rhinolophus hipposideros*), ystlum mawr; (*Nyctalus noctula*) a'r ystlum lleiaf; (*Pipistrellus spp*).

• Hefyd, mae dau gofnod o ddyfrgwn; (*Lutra lutra*) yn yr ardal chwilio. Mae'r rhywogaeth hon yn 'nodwedd' o ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae'r cynnig datblygu hwn yn annhebygol o effeithio ar ddyfrgwn neu ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.

• Mae ffwng glaswelltir wedi cael ei gofnodi o fewn 300 metr, ac mae'r maes gwersylla

Adroddiadau Ecoleg

*Asesiad Ecolegol Cychwynnol, Tyddyn Adi Caravan & Camping Park, Morfa Bychan: Proposed Park Upgrading & Restructuring, 18th Mai 2022* Cynhyrchwyd gan Cambrian Ecology

Mae'r adroddiad ecolegol hwn yn dderbyniol, fodd bynnag, yn groes

| | |
| --- | --- |
| | i'r adroddiad, mae'n debygol y bydd y glaswelltir mwynderol yn y gwersyll yn laswelltir gyda gwerth bioamrywiaeth niwtral, fel y dangosir gan ffotograffau o'r awyr ac arolwg cynefinoedd cam 1 Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Bydd y cynnig am bod gwersylla yn arwain at golli rhywfaint o gynefin glaswelltir, sy'n annhebygol o fod yn sylweddol.<br><br>Plannu wrth dirlunio: Mae'r cynlluniau yn dangos cynllun plannu bedwen arian, ceirios gwyllt a chriafolen. Mae hyn yn dderbyniol. Dim ond rhywogaethau brodorol ddylid eu plannu. Rwyf hefyd yn argymell coed cyll, y ddraenen ddu a'r ddraenen wen.<br><br>Gwella Bioamrywiaeth: Hoffwn weld mwy o fesurau gwella bioamrywiaeth, yn enwedig ar gyfer ymlusgiaid. Rwyf yn argymell cael border heb ei dorri (2 fetr), o gwmpas y cynllun plannu newydd fydd yn creu cynefin i beillwyr, ystlumod, adar, ymlusgiaid a mamaliaid bychan.<br><br>Argymhellion<br><br>Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r cynnig hwn. Argymhellaf yr amodau isod:<br><br>1. Rhaid dilyn yr argymhellion yn yr adroddiad ecoleg.<br>2. Gwella Bioamrywiaeth<br><br><u>Sylwadau gwreiddiol:</u><br><br>Diolch am ymgynghori â ni.<br><br>• Gan bod cynifer o gofnodion o ymlusgiaid yn yr ardal a bydd y broses waith angen peiriannau a storio deunyddiau yn y safle i osod y podiau a'r unedau arfaethedig, dylai ecolegydd gyda chymwysterau addas gynhyrchu asesiad o'r safle a Mesurau Osgoi Rhesymol i ymlusgiaid; ac yn ddibynnol ar addasrwydd y safle, efallai y bydd angen arolygon ymlusgiaid.<br><br>Rhaid i bob cais cynllunio arwain at wella bioamrywiaeth ar y safle, mae'r cynlluniau yn dangos cynnig i blannu coed brodorol ar y safle a bydd hyn yn cynyddu bioamrywiaeth a chysylltedd yn y safle. |
| Uned Gorfodaeth Trwyddedu Carafanau: | Bydd y datblygiad yn amodol ar y Ddeddfwriaeth isod o agwedd Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Tân a darpariaeth Iechyd Cyhoeddus fel a ganlyn:-<br><br>1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ag Ati 1974<br><br>2. Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 |

3. Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936

4. Safonau Model 1989 – Carafanau Statig Rhaid i’r datblygiad gydymffurfio yn llawn gyda amodau trwydded https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Dogfennau-Busnes/Trwyddedau/Carafannau/SafonauModel-1989-Gwyliau.pdf

5. Safonau Model 1983 - Carafanau Teithiol / Pebyll Rhaid i’r datblygiad gydymffurfio yn llawn gyda amodau trwydded https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Dogfennau-Busnes/Trwyddedau/Carafannau/SafonauModel-1983-Teithiol-a-Pebyll.pdf

6. Mae’r datblygiad arfaethedig yn cyfeirio at podiau. Mae’n ymddangos y bydd y podiau yn eu diffinio fel ‘strwythur’ heb olwynion, yn hytrach na ‘carafán’ ar olwynion, yna ni fyddai angen trwydded safle a gofynion amodau y drwydded (Safonau Model 1989) o dan Y Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960. Fodd bynnag, byddai gofynion y Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 yn pwynt 1, Rheoliadau Tân a Rheoliadau eraill yn berthnasol.

7. Ffin – Gwrychoedd Lle mae gwrychoedd yn agos i’r podiau, bydd yr amod hyn yn berthnasol petai’r podiau yn ei diffinio fel carafán ar olwynion fel nodir yn pwynt 6 a bydd Safonau Model 1989 yn berthnasol.

8. Cais am Drwydded Safle Yn dilyn unrhyw gais cynllunio sydd yn ei ganiatáu mewn perthynas a maes carafanau neu bebyll, rhaid i’r ymgeisydd gysylltu gyda Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu, Gwasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwyddedu, Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 neu trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru i drafod gwneud cais am drwydded safle. Rhaid i’r cais am drwydded gynnwys cwblhau ffurflen gais gyda copi o’r cynllun manwl graddfa 1:500 sydd wedi ei gymeradwyo yn ystod y broses cynllunio.

9. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Hyderwn y bydd ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar faterion tŷ allan i amodau trwydded (Safonau Model 1989 & 1983).

| | |
|---|---|
| Uned Draenio Tir (Ymgynghoriaeth Gwynedd): | Diolch am yr ymgynghoriad isod a sori am yr ymateb hwyr. Nid oes gan yr uned sylwadau i'w cynnig o ran draenio tir, risg llifogydd lleol nag erydiad arfordirol. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Diolch am ymgynghori â ni ar y cais uchod, a dderbyniom ar 14 Rhagfyr 2021. Nid oes gennym gwrthwynebiad i'r cais, ond gennym y sylwadau canlynol:<br><br>**Risg Llifogydd** Mae ein Map Perygl Llifogydd yn cadarnhau bod y safle ymgeisio yn rhannol o fewn Parth C2 y Map Cyngor Datblygu (MCD) fel y'i cynhwysir yn TAN15 ac o fewn y 1% (1 mewn 100 mlynedd) a 0.1% (1 mewn 1000 mlynedd) amlinelliad llifogydd annymunol blynyddol o afon Treflys (afon 'prif' ddynodedig).<br><br>Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad, V1.0 a gynhaliwyd gan Lambe Planning And Design yn cadarnhau nad yw'r podiau glampio arfaethedig yn strwythurau pren nad ydynt yn barhaol ac na chynigir unrhyw waith caled newydd ar draws y safle ymgeisio. Ystyrir bod gostyngiad mewn unedau datblygu sy'n agored iawn i niwed (25 uned datblygiad risg uchel ar hyn o bryd, 16 uned datblygiad risg uchel arfaethedig) ar y safle. Felly, o ystyried natur y datblygiad arfaethedig (ac yn absenoldeb asesiad o ganlyniadau llifogydd) rydym o'r farn y gallai'r cynnig fod yn dderbyniol, ar yr amodol ar i'r datblygwr gael gwybod am y peryglon posibl o lifogydd a chynghorir i sefydlu cynllun llifogydd os bydd unrhyw lifogydd.<br><br>Mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, rydym yn argymell y dylid ystyried ymgorffori mesurau gwrthsefyll/gwrthsefyll llifogydd wrth ddylunio ac adeiladu'r datblygiad. Gallai'r rhain gynnwys rhwystrau llifogydd ar ddrysau llawr gwaelod, ffenestri a phwyntiau mynediad, gweithredu mesurau prawfesur llifogydd addas i adeiladwaith mewnol y llawr gwaelod a lleoli socedi/cydrannau trydanol ar lefel uwch na'r lefelau llifogydd posibl.<br><br>Rydym yn cyfeirio'r ymgeisydd at ein gwefan i gael rhagor o gyngor ac arweiniad. Mae canllawiau ychwanegol gan gynnwys y daflen "Paratoi eich Eiddo ar gyfer llifogydd" ar gael. hiips://www.gov.uk/prepare-for-flooding<br><br>Gall y datblygwr hefyd gael cyngor a gwybodaeth am amddiffyn rhag llifogydd o gyhoeddiad ODPM 'Paratoi ar gyfer Llifogydd: Canllawiau Interim ar gyfer Gwella Ymmwrthedd Llifogydd Eiddo Domestig a Busnesau Bach.<br><br>**Rhywogaethau a Warchodir** Nodwn nid oes gwybodaeth am rhywogaethau a warchodir yn y cais, ac felly rydym yn cymryd bod eich Awdurdod wedi sgrinio'r cais a wedi barnu nid oes tebygolrwydd rhesymol bod rhywogaethau a warchodir yn bresennol |

ar y safle.

**Materion eraill** Mae ein sylwadau uchod dim ond yn ymwneud yn benodol â materion ar ein rhestr wirio, Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu: pynciau ymgynghori (Medi 2018), sydd i'w gweld ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar faterion eraill ac ni ellir diystyru'r posibilrwydd y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar fuddiannau eraill. Atgoffwn yr ymgeisydd am y ffaith mai ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau ei fod yn cael yr holl drwyddedau/caniatadau eraill sy'n berthnasol i'w ddatblygiad, yn ogystal â chaniatâd cynllunio. Cyfeiriwch at ein gwefan am fanylion pellach. Peidiwch ag oedi i gysylltu â mi os bydd angen gwybodaeth bellach neu eglurhad o'r uchod.

Dŵr Cymru: Noder, nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori â DCWW ar gais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon, ac yn yr achos hwn, byddwn yn cynghori nad oes rhwydwaith carthffosiaeth neu brif gyflenwad dŵr cyhoeddus gerllaw. Felly, nid oes gennym sylwadau ar y cais hwn am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r is-lofnodedig ar 0800 917 2652 neu dros e-bost at **developer.services@dwrcymru.com**.

Gwasanaeth Tân ac Achub: Heb eu derbyn.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a ni dderbyniwyd unrhyw ymateb.

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae'r cais yn golygu uwchraddio maes carafanau a gwersylla sydd wedi hir sefydlu yn Nhyddyn Adi, Morfa Bychan ac sydd â hawl amrywiol dros 3-4 cae ar gyfer pebyll ac unedau teithiol. Yn bresennol, mae tystysgrif i 75 pabell ddefnyddio'r cae dan sylw ac mae'r cais yn ymgeisio i gyfnewid 25 o'r pebyll hynny i 10 uned deithiol a 6 pod. Fe nodir o'r Datganiad Cynllunio a'r lluniau a gyflwynwyd ar y cais na fydd y podiau yn fath parhaol, ond yn rhai symudol gyda bar tynnu ac olwynion a dim ond un ystafell yn cynnwys gwely, cegin fechan gyda microdon ac oergell, felly yn ddarpariaeth sylfaenol heb gysylltiad draenio. Bwriadir eu symud a'u storio dros y gaeaf. Gan mai unedau o fath teithiol a symudol yw rhain, fe ystyrir o dan bolisi TWR 5 sydd yn berthnasol i safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a llety amgen dros dro.

5.2 Mae polisi TWR 5 CDLl yn caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau teithiol a llety gwersylla amgen dros dro os cydymffurfir â'r cyfan o'r meini prawf a nodir. Yn eu mysg, yw bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad a'i fod wedi ei leoli mewn man anymwthiol sydd wedi ei guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd a/neu ble gellir cydweddu'r unedau teithiol yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd; bod y bwriad yn osgoi gormodedd o ardaloedd o leiniau caled; fod ei gysylltiad ffisegol â'r ddaear yn gyfyngedig ac yn gallu cael ei symud oddi ar y safle yn y tymor caeedig; dylai unrhyw gyfleusterau atodol os yw hynny'n bosib, gael eu lleoli mewn adeilad presennol neu fel estyniad i gyfleusterau presennol; bod y safle'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd; mae meddiannaeth y datblygiad wedi'i gyfyngu i ddefnydd gwyliau yn unig; bod y safle'n cael ei ddefnyddio at ddibenion teithio'n unig a bod unrhyw unedau'n cael eu symud o'r safle yn y cyfnodau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

5.3 Byddai'r 10 uned deithiol wedi eu lleoli ar ffurf bwa o amgylch terfyn gogledd orllewinol a de orllewinol y cae gyda'r 6 pod yn y canol ar ongl. Byddai'r podiau o ddyluniad pren ac yn darparu llety sylfaenol yn unig. Mae rhan helaeth o ffiniau'r cae yn cynnwys coed a gwrychoedd, gydag ambell fan gwan yma thraw yn y tirlunio. Oherwydd gosodiad y safle mewn mymryn o gilfach, gyda'r tir i'r gogledd, dwyrain a gorllewin yn gefndir bryniog, ystyrir fod y safle wedi ei guddio'n dda o'r dirwedd ehangach. Mae'r cynllun safle a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn cynnwys tirlunio ychwanegol ar hyd terfyn deheuol y safle gan ychwanegu gwrychoedd rhwng yr unedau teithiol a gwrychoedd newydd i amgáu'r podiau i raddau helaeth. Mae'r rhain wedi eu cynnwys fel mesurau lliniaru gweledol a gwelliannau bioamrywiaeth ar gyfer y datblygiad arfaethedig a byddent yn atgyfnerthu'r tyfiant presennol i'w gryfhau.

5.4 Rhaid cofio mai cyfnewid pebyll am unedau teithiol a phodiau yw'r bwriad yma, nid gofyn am unedau ychwanegol. Gellir dadlau gyda gorffeniad naturiol y podiau â'r tirlunio ychwanegol a fwriedir i atgyfnerthu a gwahanu'r unedau, y byddai'r bwriad yn welliant gweledol. Byddai'r niferoedd hefyd yn gostwng, gyda'r 25 pabell presennol yn cyfnewid i 16 carafán/pod felly yn rhoi fyny 9 uned pabell fel cyfaddawd i'r bwriad. Bydd y 50 pabell sy'n weddill o'r 75 ganiatawyd yn y dystysgrif wedi eu crynhoi i gornel ddwyreiniol y cae.

5.5 Ystyrir fod dyluniad, gosodiad ac edrychiad y bwriad o ansawdd derbyniol a'i fod wedi ei leoli mewn lleoliad anymwthiol wedi ei guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd. Ni chredir byddai cyfnewid yr unedau o bebyll i garafanau a phodiau yn peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd yn y safle hwn.

5.6 Fe nodir yn y cynllun safle nad yw'n fwriad gosod lleiniau caled i'r unedau ac mae'r Datganiad Cynllunio yn datgan nad yw'n fwriad cysylltu'r podiau i system ddraenio. Bydd y podiau yn cael eu symud i safle storio dros y gaeaf, felly bydd cysylltiad ffisegol i'r ddaear yn gyfyngedig. Mae blociau cawod a thoiledau presennol yn bodoli eisoes ar y safle, a bydd defnyddwyr y carafanau a podiau arfaethedig yn defnyddio'r ddarpariaeth presennol. Nid oes bwriad adeiladu adeilad newydd fel rhan o'r cais.

5.7 O safbwynt agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd, mae'r safle gyda mynediad boddhaol i ffordd sirol dosbarth 3 a thrac yn arwain dros ddau gae i fynedfa'r safle gwersylla. Nid yw'r bwriad dan sylw yn dwysau'r defnydd fel y cyfryw, gan mai cyfnewid unedau yw'r bwriad gan olygu gostyngiad bychan i niferoedd. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan yr Uned Drafnidiaeth i'r bwriad. Fe nodir fod y trac mynediad yn llwybr cyhoeddus hefyd, ond ni fyddai'r bwriad yn

newid y sefyllfa i'r hyn a brofir yn bresennol. Ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o ran diogelwch ffyrdd.

5.8 Yn sgil yr asesiad uchod a gyda defnydd o amodau cynllunio priodol, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt cydymffurfio â meini prawf Polisi TWR 5 CDLL.

**Mwynderau gweledol**

5.9 Gorwedd y safle mewn lleoliad cefn gwlad. Fe gredir fod y safle ar y cyfan wedi cael ei sgrinio'n dda o ran helaeth o olygfeydd, gyda mannau gwan yma thraw yn y tirlunio. Mae'r safle yn weladwy o fannau agos o'r llwybr cyhoeddus fodd bynnag. Fel sydd eisoes wedi ei drafod, mae'r cynllun yn dangos bwriad i dirweddu gyda gosodiad dwysedd isel, mannau agored a rhesi o wrychoedd oddi fewn y safle.

5.10 Gan gofio fod y safle eisoes yn cael ei ddefnyddio gan bebyll, mae'r plannu ychwanegol yma i'w groesawu a byddai'n ychwanegu at y tirweddu oddi amgylch y safle ac yn lleihau ei effaith ar y dirwedd. Nid yw'r safle yn un ymwthiol yn y dirwedd fel y mae ar hyn o bryd, a ni ragwelir effaith andwyol sylweddol ar y dirwedd na dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig. Gyda'r tirlunio pellach credir y byddai'r bwriad yn helpu i wella cymeriad yr ardal Tirwedd Arbennig a gwneud y safle yn fwy deniadol. Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt mwynderau gweledol ac yn cwrdd â gofynion polisïau PCYFF 3, PCYFF 4, TWR 5 ac AMG 2 y CDLl.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.11 Mae'r tai agosaf oddeutu dau gae i ffwrdd o safle'r cais. O ystyried y pellter, yn ogystal â'r ffaith mai cyfnewid pebyll presennol am unedau teithiol a phodiau sydd yma, ni ystyrir y byddai unrhyw newid arwyddocaol i'r sefyllfa i'r hyn a brofir yn bresennol. Mae defnydd y safle wedi hir sefydlu fel safle gwersylla carafanau a phebyll a ni fyddai'r bwriad yn creu gweithgarwch gwahanol i'r presennol. Mae'r bwriad felly yn dderbyniol ar sail cydymffurfio a pholisi PCYFF 2 CDLl.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.12 Mae'r safle gyda mynediad uniongyrchol i ffordd ddosbarth 3. Ni fydd angen gwneud addasiadau i'r fynedfa er gwasanaethu'r bwriad. Byddai gostyngiad bychan yn y niferoedd yn sgil y cais i'r hyn a brofi'r yn bresennol. Nid dderbyniwyd unrhyw ymateb gan yr Uned Drafnidiaeth. Byddai digon o lefydd parcio i'w cael o fewn y safle. Ystyrir y bwriad yn dderbyniol o safbwynt polisïau TRA 2 a TRA 4 CDLL.

**Llifogydd**

5.13 Oherwydd agosatrwydd y safle at afon sy'n rhedeg gyda therfyn deheuol y cae, mae rhan fechan o'r cae o fewn parth llifogydd C2 fel y cynhwysir ym Map Cyngor Datblygu Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15. Mae datblygiad meysydd carafanau yn cael eu hystyried yn ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed yng nghategorïau NCT 15, ble na ddylid caniatáu datblygiadau o fewn parthau C2 ble gallai'r potensial llifogydd fygwth bywyd preswylwyr a defnyddwyr. Derbyniwyd ymateb ymgynghoriad gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n mynegi, gan nad yw'r podiau yn strwythurau parhaol ac nad oes unrhyw fwriad i osod lleiniau caled, fod y cynnig yn gallu bod yn dderbyniol ar yr amod fod y datblygwr yn cael gwybod am y peryglon llifogydd a chynghori iddo sefydlu cynllun llifogydd. Petai'r cais dan sylw yn ddatblygiad o'r newydd am safle carafanau,

byddai'r bwriad yn groes i bolisi. Fodd bynnag, o ystyried sefyllfa '*fall back'* y safle sydd eisoes â chaniatâd am 75 pabell, ni fyddai cyfnewid yr unedau yn groes i bolisi gan nad yw'n cynyddu risg yn yr achos yma. Gellir dadlau oherwydd y gostyngiad niferoedd, y byddai'r risg yn lleihau. O ystyried mai rhan fechan o'r cae yn unig sydd o fewn Parth C2 a sefyllfa caniatâd presennol y safle, cesglir na fyddai'r bwriad yn gwaethygu na chynyddu risg llifogydd yn yr achos yma. Awgrymir felly fod y sefyllfa 'fall back' yn golygu nad yw'r bwriad yn groes i bolisi NCT 15 a pholisi PS 6 y CDLl, gyda nodyn cyngor yn cael ei gynnwys i ddilyn cynghorion sylwadau CNC.

**Materion Bioamrywiaeth**

5.14 Ymgynghorwyd gyda'r Uned Bioamrywiaeth oherwydd agosatrwydd y safle at Safle Bywyd Gwyllt Lleol yn y cae cyfochrog. Derbyniwyd ymateb fod angen cyflwyno Asesiad Ecolegol gan fod cofnodion o ymlusgiaid o fewn y safle ac fe gyflwynwyd y wybodaeth yn ddiweddarach. Maent yn fodlon gyda chynnwys yr Asesiad Ecolegol Cychwynnol gan Cambrian Ecology ac maent yn cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad, cyn belled a bod y gwaith yn cydymffurfio ac argymhellion yr adroddiad a fod gwelliannau bioamrywiaeth yn cael eu gwneud. Mae bwriad i blannu gwrychoedd a choed newydd ac ystyrir byddai'r gwaith tirweddu a phlannu yn cynnig gwelliannau bioamrywiaeth sydd yn cyd-fynd ac egwyddorion Polisi Cynllunio Cymru .I'r perwyl hyn ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisïau PS 19, AMG 5 ac AMG 6 o'r CDLl.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.15 Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae'n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, lle mae'n berthnasol i'r cais hwnnw. Ategir hyn ymhellach gan bara 3.28 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2019) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 20.[

5.16 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' (mabwysiedig Gorffennaf 2019) yn rhoi arweiniad pellach ar sut y disgwylir i ystyriaethau i'r iaith Gymraeg fod yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol. Mae'r trothwyon o ran pryd y disgwylir cyflwyno Datganiad/Adroddiad wedi ei hamlygu ym Mholisi PS1 o'r CDLl ar y Cyd ynghyd a Diagram 5 o'r CCA. Nid yw'r bwriad arfaethedig yn cyrraedd y trothwyon hyn.

5.17 Er nad oes angen cyflwyno Datganiad/Adroddiad ffurfiol, mae angen rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg yn unol â'r arweiniad sydd yn Atodiad 5 CCA 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'. Mewn perthynas â hyn mae Datganiad Iaith Gymraeg yr ymgeisydd yn nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r teulu sy'n rhedeg y safle yn Gymraeg, lleol ac yn siarad Cymraeg.
- Bydd y bwriad yn creu 1 swydd llawn amser a 2 rhan amser.
- Bydd arwyddion Newydd yn ddwyieithog.
- Bydd hamper themâu Cymreig yn cael eu darparu i ymwelwyr y podiau.
- Bydd bwrdd hysbysebu ar y safle yn hybu a rhoi ymwybyddiaeth i'r iaith Gymraeg.
- Darparu cyfleoedd cyflogaeth leol ac yn defnyddio contractwyr lleol.

5.18 I'r perwyl yma, ystyrir bod y bwriad yn cyd-fynd hefo'r arweiniad sydd wedi ei gynnwys yn rhan 'CH' o Atodiad 5 o'r CCA.

**Cynaladwyedd**

5.19 Mae polisi PS 5 (Datblygiadau Cynaliadwy) yn cefnogi datblygiadau sy’n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, a lle’n briodol, dylai datblygiadau:

*“Lleihau’r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS 4” (Pwynt bwled 12, Polisi PS 5)”*

Ategir hyn gan bwynt bwled 4 polisi PS 14 (Yr Economi Ymwelwyr). Ystyrir bod polisïau’r CDLL yn gyson gyda pholisïau cynllunio cenedlaethol o safbwynt sut mae'n ymdrin gydag egwyddorion datblygiad cynaliadwy.

5.20 Er y cydnabyddir y byddai defnyddwyr yr unedau teithiol yn defnyddio cerbydau preifat i gyrraedd y safle (oherwydd yr angen i dynnu carafán) mae gwahanol opsiynau ar gael ar gyfer defnyddio dulliau amgen o deithio unwaith byddent wedi cyrraedd y safle gan gynnwys beicio, trafnidiaeth gyhoeddus ac ar droed.

5.21 Nodir bod arosfa’n bws wedi ei leoli ger mynedfa safle carafanau Greenacres o fewn pellter cerdded rhesymol i safle’r cais. Yn ogystal, mae’r safle o fewn pellter cerdded neu feicio i’r traeth ac i siop y pentref a cheir rhwydwaith llwybrau yn agos. Yng nghyd-destun yr holl ystyriaethau materol cynllunio perthnasol, ystyrir bod lleoliad y safle yn gynaliadwy ac yn dderbyniol ar sail gofynion polisïau PS4, PS5 a PS14 o'r CDLL ynghyd a chydymffurfio a'r cyngor a gynhwysir yn NCT18, a PCC.

**Casgliadau:**

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal â sylwadau a dderbyniwyd, credir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail y materion fel y nodir yn yr adroddiad ac na fyddai’n cael effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd, mwynderau’r gymdogaeth na diogelwch ffyrdd.

**Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo’r hawl i’r Rheolwr Cynllunio i ganiatáu’r cais yn ddarostyngedig i’r amodau canlynol:

- Amser
- Yn unol â’r cynlluniau.
- Cyfyngu nifer o unedau teithiol i 10 uned deithiol, 6 pod a 50 pabell.
- Defnydd gwyliau yn unig a chadw cofrestr.
- Tymor gwyliau - 1af Mawrth i 31 Hydref
- Symud y podiau i safle storio a ddangosir yn y cynllun rhwng 1 Tachwedd a 29 Chwefror.
- Cwblhau’r gwaith tirweddu yn y tymor plannu cyntaf.
- Unol ac argymhellion Adroddiad Ecolegol
  Nodiadau: Tynnu sylw at sylwadau Swyddog Trwyddedu Carafanau

  Nodiadau: Tynnu sylw at sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chael cynllun llifogydd mewn lle.